**Cyfarwyddwr Cyffredinol Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol/**
**Prif Weithredwr GIG Cymru**
**Grŵp Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol**

**Director General Health and Social Services/**
**NHS Wales Chief Executive**
**Health and Social Services Group**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Nick Ramsay AC
Cadeirydd
Y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus

Ein cyf: AG/SE/JM

6 Tachwedd 2017

Annwyl Mr Ramsay

**Deddf Cyllid y GIG (Cymru) 2014**

Yn dilyn fy ymddangosiad gerbron y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus ar 10 Gorffennaf 2017 a'ch llythyr dyddiedig 11 Hydref 2017, hoffwn roi mwy o ymateb i'r Pwyllgor am y materion a godwyd. Gobeithio y bydd hyn o gymorth ichi.

**Cyllid yn ystod y flwyddyn**

Rydym wedi gweithredu ers cyflwyno'r Ddeddf i annog byrddau iechyd i roi'r gorau i ddibynnu ar gael mwy o gyllid yn ystod y flwyddyn, fel a wnaed yn y gorffennol. Yn benodol, rydym wedi bod yn gwbl glir na fyddwn yn rhoi cyllid i fyrddau i dalu am ddiffygion. Rydym wedi rhoi pwyslais cadarn ar lywodraethu ac atebolrwydd byrddau. O ganlyniad, comisiynwyd Deloitte LLP i gynnal adolygiadau o drefniadau llywodraethu ariannol y sefydliadau hynny sy'n cael eu huwchgyfeirio. Cafodd eu hadroddiadau ac ymatebion y byrddau iechyd eu cyhoeddi gan y byrddau eu hunain ynghyd â'u papurau ar gyfer mis Medi.

O ran cynllunio ar gyfer y tymor canolig, rydym yn rhoi dyraniad refeniw blynyddol wedi'i gadarnhau i'r byrddau iechyd o leiaf dri mis cyn dechrau'r flwyddyn ariannol. Rydym hefyd yn rhoi iddynt ragor o ragdybiaethau cynllunio i'w galluogi i gynllunio dros gyfnod o dair blynedd.

Rydym wedi rhoi £50 miliwn arall i sefydliadau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (GIG) ar gyfer ariannu perfformiad yn 2017-18. Mae'r cyllid hwn yn ychwanegol i'r dyraniadau rheolaidd, ac mae'n galluogi sefydliadau i wella eu lefelau perfformiad arfaethedig yn ystod y flwyddyn.

Parc Cathays ● Cathays Park
Caerdydd ● Cardiff
CF10 3NQ

Ffôn ● Tel 02920 801182/1144
Andrew.Goodall@wales.gsi.gov.uk

Gwefan ● website: www.llyw.cymru

BUDDSODDWYR MEWN POBL | INVESTORS IN PEOPLE

**Yr Academi Gyllid**

Uchelgais yr Academi Gyllid yw creu'r Gweithgarwch Cyllid "Gorau i Gymru ond y gellir ei gymharu â'r gorau yn unrhyw le." Mae'r uchelgais hwn yn cynnwys pedair prif thema:

- Datblygu ein Pobl
- Arloesi ac Ychwanegu Gwerth
- Gweithio mewn Partneriaeth
- Hyrwyddo Rhagoriaeth

Mae Cyfarwyddwr Cyllid yn gyfrifol am oruchwylio pob thema ac mae pob Cyfarwyddwr Cyllid yng Nghymru yn gyfrifol ar y cyd am oruchwylio'r rhaglen gyfan drwy Fwrdd yr Academi Gyllid

http://www.financeacademy.wales.nhs.uk/hafan

Mae llwyddiannau'r Cynlluniau Rhaglenni yn cynnwys:

- Y rhaglen Datblygu Sgiliau Cyllid – cyfres o ddigwyddiadau dysgu sy'n agored i bob aelod o staff cyllid GIG Cymru
- Recriwtio hyfforddeion graddedig yn flynyddol er mwyn cynllunio ar gyfer olyniaeth
- Rhaglenni datblygu Piblinell Dalent ar gyfer gwella Arweiniad Ariannol ar draws GIG Cymru
- Datblygu rhaglen wedi'i theilwra'n benodol o ddosbarthiadau meistr a fydd yn rhoi cymorth ymarferol i Gyfarwyddwyr Cyllid a'u huwch-dimau ar y themâu, gwerth, llywodraethu ariannol, deall amrywiadau a chyflenwi rhaglenni
- Cydweithredu â Swyddfa Archwilio Cymru, Llywodraeth Leol a chyrff eraill sy'n cael arian cyhoeddus i drefnu hyfforddiant a datblygiad ariannol ar y cyd i fyfyrwyr/hyfforddeion ar draws y sector cyhoeddus
- Hyrwyddo methodoleg Gofal Iechyd seiliedig ar Werth a helpu i'w weithredu mewn ymarfer, gan gynnwys gwaith gyda'r Grŵp Gweithredu Iechyd Anadlol Cenedlaethol i nodi cyfleoedd mewn clefyd rhwystrol cronig yr ysgyfaint
- Gweithio gyda Chomisiwn Bevan i gefnogi rhaglen enghreifftiol Bevan – cefnogi gwerthuso ariannol a datblygu achosion busnes sy'n cael eu gyrru gan werth, dod â staff ariannol a chlinigol ynghyd a helpu i rannu ymarfer arloesol ar draws Cymru
- Rhaglen Gyfathrebu ac Ymgysylltu ar gyfer Staff Cyllid gan gynnwys arolygon, gwefan yr Academi Gyllid a chylchlythyrau i gefnogi datblygiad staff cyllid a thynnu sylw at gyfleoedd dysgu a datblygu
- Gweithio gyda grwpiau proffesiynol clinigol ac anghlinigol – gan gynnwys y gweithlu, caffael, gwybodeg, cynllunio, Adnoddau Dynol a Datblygu Sefydliadol – i rannu arferion da, profiad o sefydlu academi, a hwyluso digwyddiadau dysgu ar y cyd
- Datblygu partneriaethau gweithio â sefydliadau eraill i ddatblygu gwaith yr Academi gan gynnwys Cymdeithas Rheoli Cyllid Gofal Iechyd, cyrff cyfrifyddu proffesiynol, Swyddfa Archwilio Cymru, prifysgolion, y sector preifat, y Consortiwm Rhyngwladol ar gyfer Canlyniadau Iechyd, Grŵp Datblygu Sgiliau Cyllid Cymru Gyfan
- Gwella'r defnydd o systemau a phrosesau mewn partneriaeth â Chyfarwyddwyr y Gweithlu (Rhaglen Hire 2 Retire) ac Arweinwyr Caffael (Rhaglen Purchase 2 Pay)

Mae cynigion ar gyfer rhaglenni'r dyfodol yn cynnwys:

- Datblygu cydraglen ddatblygu ariannol/clinigol ar gyfer dysgu y naill i'r llall ar draws proffesiynau
- Datblygu diwylliant o hyfforddi a mentora ar draws Cyllid GIG Cymru

- Datblygu Rhagoriaeth mewn Llywodraethu Ariannol – cefnogi datblygiad yn y maes Cyllid ac ar draws Byrddau
- Helpu i rannu Arloesi sy'n gweithio drwy'r gymuned gyllid

**Hyfforddiant Cyllid ar gyfer aelodau'r Bwrdd**

Ym mis Mehefin 2016 trefnodd yr Academi Gyllid sesiwn ddatblygu ar gyfer Aelodau Annibynnol ar Gyllid a Llywodraethu. Roedd y sesiwn ddatblygu yn cynnwys cyflwyniadau gan Ddirprwy Gyfarwyddwr GIG Cymru, Cyfarwyddwr Rhaglen Gyllid Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol, Cyfarwyddwr Cyllid un o'r Byrddau Iechyd Lleol, Cyfarwyddwr Swyddfa Archwilio Cymru ac Ysgrifenyddion Byrddau. Roedd y sesiwn Cyllid yn trafod cyllid a dyraniadau, Deddf Cyllid y GIG (Cymru) 2014, dyletswyddau ariannol tair blynedd, cynllunio tymor canolig integredig ac achosion busnes.

Mae Academi Wales, gyda chefnogaeth swyddogion Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol a'r GIG, wedi datblygu Rhaglen Gynefino ar gyfer Aelodau Annibynnol newydd i roi iddynt yr wybodaeth a'r gefnogaeth sydd eu hangen arnynt i fod yn hyderus ac yn gynhyrchiol yn eu rolau. Bydd Modiwl 2 y rhaglen, "Cynllunio, Adnoddau a Chyflawni", yn cynnwys cyllid, a bydd yn seiliedig ar adran gyllid yr Academi Gyllid cyn hyn, ar gyllid a dyraniadau, Deddf Cyllid y GIG (Cymru) 2014, dyletswyddau ariannol tair blynedd, cynllunio tymor canolig integredig ac achosion busnes.

**Adrodd am Ddiffygion**

Rwy'n nodi barn y Pwyllgor bod diffygion yn cael eu dangos yn glir ar fantolen sefydliadau. Mae ffurf cyfrifon byrddau iechyd lleol yn dilyn cyfarwyddiadau a gyhoeddwyd gan Lywodraeth Cymru yn unol â gofynion Trysorlys ei Mawrhydi, sy'n gyson ledled y sector cyhoeddus yn y DU. Gan mai gorwariant yn erbyn terfynau adnoddau refeniw blynyddol yw'r diffygion a ysgwyddir yn eu hanfod, o ran y ffordd yr ymdrinnir â hwy o safbwynt cyfrifyddu, yn dechnegol, nid oes unrhyw rwymedigaethau a ysgwyddir sy'n rhaid eu cofnodi mewn mantolen ar ddiwedd y flwyddyn ariannol.

Mae Llywodraeth Cymru wedi cytuno ar ddull adrodd gyda Swyddfa Archwilio Cymru sy'n golygu bod nodyn pwrpasol yng nghyfrifon byrddau iechyd ar berfformiad yn erbyn dyletswyddau ariannol, sy'n nodi'r perfformiad yn erbyn y gofyniad i adennill costau dros gyfnod ariannol dreigl o dair blynedd.

Mae enghraifft o'r datgeliad hwn i'w gweld yn nodyn 2.1 (tudalen 20) o gyfrifon blynyddol Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda ar gyfer 2016-17 a osodwyd gerbron y Cynulliad Cenedlaethol ar 9 Mehefin 2017. Mae'r ddogfen i'w gweld yma http://www.assembly.wales/laid%20documents/agr-ld11065/agr-ld11065-e.pdf.

**Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda**

Cynhaliwyd Adolygiad Seiliedig ar Sero i asesu unrhyw gostau "ychwanegol" sydd ynghlwm wrth ffurfwedd bresennol gwasanaethau gofal iechyd Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda yn erbyn cymharydd priodol. Aseswyd yn yr adolygiad unrhyw "gost ychwanegol" yn y pedwar maes allweddol a ganlyn:


- Demograffeg
- Pellenigrwydd daearyddol
- Ffurfwedd y gwasanaeth (maint)
- Effeithlonrwydd

Yn y pedwar maes hwn, cafodd y costau eu hasesu a'u categoreiddio o dan y penawdau a ganlyn:

- Amhosibl eu hosgoi
- Y gellir ei reoli'n rhannol yn y tymor canolig i'r hirdymor
- Y gellir ei reoli yn y tymor byr i'r hirdymor

Mae canfyddiadau'r adolygiad seiliedig ar sero yn cael eu gwerthuso gan swyddogion a bydd cyngor yn cael ei ddatblygu maes o law.

Yn gywir



**Dr Andrew Goodall**